

Atebion

# Ffynnon garegu Gogledd Swydd Efrog

Tasg 1

2.

<b>proses</b>	<b>llawer o newidiadau sy'n digwydd yn raddol ac sy'n rhoi canlyniad</b>	<i>a process</i>
<b>ffynnon</b>	<b>llif neu rediad o ddŵr sy'n dod o'r ddaear</b>	<i>a well</i>
<b>arllwys</b>	<b>llifo, tywallt</b>	<i>(to) pour</i>
<b>hydoddi</b>	<b>gwneud i rywbeth solet neu nwy fod yn rhan o hylif</b>	<i>(to) dissolve</i>

3. Dewiswch y gair gorau i orffen pob brawddeg.

Ticiwch **un** bob tro.

a. Mae Ffynnon Garegu Knaresborough yn ffenomen <b>naturiol</b> .
b. Mae proses garegu'n digwydd yn eithaf <b>araf</b> .
c. Mae'r lle yn denu llawer o <b>ymwelwyr</b> .
ch. Yn yr amgueddfa, gallwch chi weld llawer o <b>wrthrychau</b> .

4.

- a. Mae gwrthrychau'n cael **eu** caregu yn y ffynnon.
- b. Cafodd het **ei** charegu yn Oes Victoria.
- c. Cafodd hetiau **eu** caregu yn Oes Victoria.
- ch. Mae ymwelwyr yn cael **eu** denu i weld y ffynnon.
- d. Mae bag Agatha Christie yn cael **ei** arddangos yn yr amgueddfa.
- dd. Mae mwynau'n cael **eu** hydoddi yn y dŵr.
- e. Roedd profion a gafodd **eu** gwneud yn dangos bod calsiwm carbonad a sodiwm swlffad yn y dŵr.

5.

<b>enw</b>	<b>benywaidd / gwrywaidd?</b>
<b>ffynnon</b>	(enw benywaidd)
<b>llyn</b>	(enw gwrywaidd)
<b>gwrthrych</b>	(enw gwrywaidd)
<b>craig</b>	(enw benywaidd)
<b>proses</b>	(enw benywaidd)
<b>amgueddfa</b>	(enw benywaidd)